

Cylchlythyr | Circular

Llesiant ac iechyd: cyllid ar gyfer strategaethau yn 2022/23 a gofynion monitro ar gyfer 2021/22 a 2022/23

Dyddiad: 10 Awst 2022
Cyfeirnod: W22/29HE
At: Benaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru
Ymateb erbyn: **Dydd Gwener 30 Medi 2022:** Monitro 2021/22
Dydd Gwener 9 Rhagfyr 2022: Cynlluniau llesiant ac iechyd 2022/23 a dogfennau ategol
Dydd Gwener 29 Medi 2023: Monitro 2022/23

Cyswllt: Enw: Ryan Stokes
Amanda Phillips
E-bost: ryan.stokes@hefcw.ac.uk
amanda.phillips@hefcw.ac.uk

Mae'r cylchlythyr hwn yn darparu canllawiau a manylion ynghylch dyrannu cyllid o £2.138m i brifysgolion i gyflawni strategaethau llesiant ac iechyd yn 2022/23. Mae'r cylchlythyr yn cynnwys ein gofynion monitro ar gyfer 2021/22 a 2022/23.

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat hygyrch arall, anfonwch e-bost i info@hefcw.ac.uk.



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cyflwyniad

1. Mae'r cylchlythyr hwn yn darparu canllawiau a manylion ynghylch dyrannu cyllid o £2.138m i brifysgolion i gyflawni strategaethau llesiant ac iechyd yn 2022/23. Mae'r cylchlythyr yn cynnwys ein gofynion monitro ar gyfer 2021/22 a 2022/23 er mwyn dangos cynnydd prifysgolion tuag at ddull effeithiol, prifysgol gyfan o ymdrin â llesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, ar gyfer staff a myfyrwyr.

Cefndir

2. Yn 2019, fe ymrwymodd yr holl brifysgolion yng Nghymru i fabwysiadu, o 2019/20, y dulliau [Stepchange: mentally healthy universities](#) a [Suicide-Safer Universities](#). Fe wnaeth cylchlythyr [W19/11HE](#) wahodd strategaethau Llesiant ac Iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, ac fe wnaeth cylchlythyr [W20/35HE](#) gadarnhau cyllid i gefnogi cynlluniau cyflawni yn 2020/21.
3. Yn 2021, fe gyhoeddodd ni gylchlythyr [W21/22HE](#): Llesiant ac Iechyd: cyllid strategaethau llesiant ac iechyd 2021/22 a oedd yn cadarnhau cyllid pellach.
4. Rydym wedi cynyddu'r gyllideb Llesiant ac Iechyd (WBH) i £2.138m yn 2022/23 i aildosbarthu tanwariant mewn perthynas â Llesiant ac Iechyd a ryddhawyd i ni yn 2021/22.

Strategaethau a chynlluniau cyflawni ar gyfer cyllid llesiant ac iechyd 2022/23

5. Yn 2022, fe ddarparom ni adborth generig i brifysgolion ar eu strategaethau llesiant ac iechyd, hunanasesiadau *Stepchange* ac adborth penodol ar eu strategaethau i greu prifysgolion mwy diogel rhag hunanladdiad. Dylai'r adborth hwn, gyda'r enghreifftiau o arfer diddorol, oleuo adolygiad parhaus prifysgolion o strategaethau ac o roi'r cynlluniau cyflawni ar waith yn 2022/23.
6. Dylai'r gwersi parhaus y mae prifysgolion yn eu dysgu o weithredu yng nghydestun Covid-19, a'r effaith wahaniaethol ar staff a myfyrwyr, oleuo'r broses o adolygu strategaethau a chynlluniau, eu datblygu ymhellach a'u gweithredu.
7. Rydym yn disgwyl i gynlluniau cyflawni yn 2022/23 barhau i ddefnyddio 'dull prifysgol gyfan', gan gefnogi a diwallu anghenion staff a myfyrwyr ac ystyried pob agwedd ar fywyd prifysgol, gan gynnwys bywyd gwaith. Lle mae sefydliadau'n dewis cyllido gweithgareddau a gwasanaethau llesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, â chyllid nad yw'n dod oddi wrth CCAUC, dynodwch y gweithgareddau a'r gwasanaethau hyn ynghyd â'r ffynonellau cyllid yn eich cynlluniau os gwelwch yn dda.
8. Dylai prifysgolion ystyried cefnogi prosesau pontio, dilyniant a llwyddiant ymgeiswyr a myfyrwyr hefyd, fel y mae hyn yn berthnasol i lesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, gan weithio mewn partneriaeth gydag ysgolion, colegau a phartneriaid allanol eraill. Dylai prifysgolion ystyried dyletswyddau disgwylid y

Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY) mewn perthynas â chefnogi lles myfyrwyr hefyd.

9. Dylai Cynlluniau Cyflawni 2022/23 gynnwys:

- i) amcanion/bwriadau'r strategaethau llesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, sy'n cael eu blaenoriaethu yn 2022/23;
- ii) gweithgareddau, gwasanaethau ac adnoddau, yn erbyn yr amcanion/y bwriadau, gan gynnwys nodi erbyn pa ddyddiadau y bydd gweithgareddau, gwasanaethau ac adnoddau newydd neu barhaus yn cael eu sefydlu a/neu eu cwblhau;
- iii) gweithgareddau a gwasanaethau a ddarperir yn ddwyieithog a/neu ar wahân yn Gymraeg;
- iv) gweithgareddau, gwasanaethau ac adnoddau sy'n ystyried myfyrwyr mewn sefydliadau breiniol/partner a myfyrwyr ôl-radd;
- v) gweithgareddau, gwasanaethau ac adnoddau i sicrhau llesiant ac iechyd staff a myfyrwyr, gan gynnwys iechyd yr effeithir arno gan aflonyddu, casineb a chamymddwyn rhywiol a thrais ar sail hunaniaeth¹;
- vi) gwybodaeth am sut y bydd unrhyw brosiectau llesiant ac iechyd cydweithredol, a gyllidwyd yn flaenrol gan CCAUC, yn cael eu cynnal;
- vii) gweithgareddau, gwasanaethau ac adnoddau sy'n ystyried canfyddiadau ac argymhellion yr hunanasesiad Stepchange: mentally healthy universities a luniwyd gan Universities UK (UUK);
- viii) camau gweithredu y gellir eu hadnabod yn glir i fynd i'r afael â bylchau/blaenoriaethau a nodwyd o ganlyniad i adolygiad y brifysgol gan ddefnyddio offeryn hunanasesu UUK
- ix) cadarnhad o ran sut y bydd cynnydd yn erbyn y cynllun cyflawni'n cael ei fonitro a'i fesur;
- x) eglurhad o ran sut y mae ystod gynrychiolaidd o fyfyrwyr, staff a phartion â buddiant wedi cael eu cynnwys yn y broses o ddatblygu'r cynllun;
- xi) eglurhad o ran sut y mae canfyddiadau asesiadau effaith wedi goleuo'r amcanion/bwriadau, y gweithgareddau a'r gwasanaethau a fydd yn cael eu darparu; a
- xii) eglurhad o ran sut y byddir yn adrodd ar fonitro ac adolygu'r cynllun cyflawni wrth a thrwy strwythurau llywodraethu'r brifysgol.

10. Hefyd, rydym yn disgwyl i gynlluniau cyflawni ystyried y canlynol yn arbennig:

- anghenion penodol staff a myfyrwyr â nodweddion gwarchoddedig;
- angen siaradwyr Cymraeg i gael mynediad at wasanaethau yn eu dewis iaith.

Cyllid a monitro

11. Rydym yn disgwyl i brifysgolion fynd ati yn ystod y flwyddyn i reoli eu dyraniad ar gyfer cynllun cyflawni 2022/23, o ystyried mai ein bwriad yw cyllido strategaethau

¹ Dylai ystyriaethau o ran trais ar sail hunaniaeth gynnwys, ymhlith nodweddion eraill, rhywedd, hil, crefydd a chred, gan gydnabod natur drawstoriadol y nodweddion hyn.

llesiant ac iechyd yn yr hirdymor, yn amodol ar ailgadarnhau'r safbwynt yma gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

12. Byddwn yn adhawlio a/neu'n cadw'n ôl unrhyw danwariant heb ei neilltuo ar ddiwedd 2022/23, oni bai bod amgylchiadau eithriadol, a byddwn yn adhawlio cyllid/cadw cyllid yn ôl lle ceir adroddiadau anfoddhaol neu gyfyngedig yn erbyn ein gofynion monitro.
13. Bydd y cyllid ar gyfer cynlluniau cyflawni strategaethau llesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, ar gyfer 2022/23 yn cael ei ddyrannu mewn dwy gyfran, ar sail cyfrif pennau myfyrwyr, fel a nodir yn **Atodiad A**.
14. Byddwn yn amcanu at ddyrannu'r gyfran gyntaf ym mis **Rhagfyr 2022** yn amodol ar:
 - i) cyflwyno adroddiadau monitro llesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, 2021/22 i ni (gweler [templed adroddiad monitro 2021/22](#)); a
 - ii) cadarnhau defnydd boddhaol o gyllid 2021/22.
15. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r rhain yw **30 Medi 2022**.
16. Byddwn yn amcanu at ddyrannu'r ail gyfran ym mis **Mawrth 2023** yn amodol ar gyflwyno'r canlynol i ni mewn modd boddhaol:
 - i) unrhyw geisiadau am wybodaeth ychwanegol gennym ni mewn perthynas â monitro 2021/22, lle y bo angen;
 - ii) cynlluniau cyflawni llesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, 2022/23 (gweler y templed a ddarperir yn **Atodiad B**);
 - iii) adolygiad o'r strategaeth llesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, gyda gwybodaeth am fwriad y brifysgol i ddiweddarau neu adnewyddu'r strategaeth bresennol, gan ddibynnu ar y dyddiadau y daw strategaethau i ben; a
 - iv) copi o'r strategaeth Prifysgol Fwy Diogel Rhag Hunanladdiad ddiweddaraf gyda chrynodeb o unrhyw ddiwygiadau yn dilyn adborth CCAUC ym mis Gorffennaf 2022, lle y bo'n berthnasol.
17. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r rhain yw **dydd Gwener 9 Rhagfyr 2022**.
18. Mae **Tabl 1** yn y cylchlythyr hwn yn nodi'r dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno adroddiadau.
19. Rhaid cyflwyno templed adroddiad monitro 2022/23 (**Atodiad C**) i CCAUC erbyn **29 Medi 2023**.
20. Rydym yn cadw'r hawl i gadw cyllid yn ôl neu adhawlio cyllid lle nad yw strategaethau diwygiedig, cynlluniau cyflawni, y modd y gweithredir neu adroddiadau a gweithgarwch monitro'n ddigonol i'n sicrhau ni a chyrff llywodraethu bod cynnydd boddhaol wedi cael ei wneud, ar gyflymder rhesymol, neu lle nad yw cyllid wedi cael ei ddefnyddio'n llawn, neu at y dibenion yr oedd wedi'i fwriadu ar eu cyfer.

**Amserlen
Tabl 1**

Gofynion adrodd	Dyddiad cyflwyno
Adroddiad monitro a chyllid llesiant ac iechyd gan gynnwys iechyd meddwl 2021/22 wedi'i gwblhau.	Dydd Gwener 30 Medi 2022
Unrhyw wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani gennym ni mewn perthynas ag adroddiad monitro 2021/22, lle y bo angen.	Dydd Gwener 9 Rhagfyr 2022
Templed cynllun cyflawni llesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, 2022/23 CCAUC wedi'i gwblhau gan gynnwys llofnod yr Is-Ganghellor	Dydd Gwener 9 Rhagfyr 2022
Adolygiad o'r strategaeth Llesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, sy'n cynnwys gwybodaeth am fwriad y brifysgol i ddiweddarau neu adnewyddu'r strategaeth bresennol, gan ddibynnu ar y dyddiadau y daw strategaethau i ben.	Dydd Gwener 9 Rhagfyr 2022
Copi o'r strategaeth Prifysgol Fwy Diogel Rhag Hunanladdiad ddiweddaraf a chrynodeb o ddiwygiadau a wnaed yn dilyn adborth CCAUC, lle y bo'n berthnasol.	Dydd Gwener 9 Rhagfyr 2022
Adroddiad monitro llesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, 2022/23 wedi'i gwblhau.	Dydd Gwener 29 Medi 2023

Gwybodaeth bellach / ymatebion i

21. I gael gwybodaeth bellach cysylltwch â Ryan Stokes (ryan.stokes@hefcw.ac.uk).
22. Ymatebion i gael eu cyflwyno i Amanda Phillips (amanda.phillips@hefcw.ac.uk).

Asesu effaith ein polisiau

23. Rydym wedi diweddarau ein hasesiad effaith parhaus i ystyried cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Fe wnaethom hefyd ystyried effaith polisiau ar y Gymraeg, a darpariaeth Gymraeg yn y sector AU yng Nghymru ac effeithiau posibl ar y nodau a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan gynnwys ein Hamcanion Llesiant. Cysylltwch ag equality@hefcw.ac.uk i gael rhagor o wybodaeth am asesiadau effaith.
24. Mae canfyddiadau ein hasesiad effaith yn cynnwys:

- canfod effeithiau cadarnhaol ar y nodweddion gwarchoddedig canlynol: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Ni chanfuwyd unrhyw effeithiau negyddol.
- cadarnhau bod y cyllid yn cefnogi pump o'r saith nod llesiant ac yn ystyried y pum ffordd o weithio.
- nodi bod y canllawiau ynghylch y cyllid a'r broses o fonitro'r cyllid yn ceisio cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.

Dyraniadau cyflawni strategaethau llesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, 2022/23

Sefydliad	Dyraniad 2022/23 £
Prifysgol De Cymru	346,527
Prifysgol Aberystwyth	112,234
Prifysgol Bangor	146,558
Prifysgol Caerdydd	501,715
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant	221,189
Prifysgol Abertawe	323,705
Prifysgol Metropolitan Caerdydd	172,175
Prifysgol Glyndŵr Wrecsam	100,340
Y Brifysgol Agored yng Nghymru	213,557
Cyfanswm	2,138,000

Nodiadau

Data cofnod myfyrwyr HESA ar gyfer 2020/21 wedi'i ddilysu

Cyfrif pennau – Poblogaeth gofrestru safonol HESA, pob dull a lefel, wedi'i lleihau i gyfrif pennau lle mae gan fyfyrwyr fwy nag un cofrestriad

Defnyddiwyd yr un dull, gan ddefnyddio data myfyrwyr 2018/19, i ddyrannu £1.5M ar gyfer:

[W20/08HE: Llesiant ac iechyd: gwella polisïau ac arferion diogelu a hybu urddas misglif mewn AU](#)

Defnyddiwyd yr un dull, gan ddefnyddio data myfyrwyr 2018/19, i ddyrannu £1.81M ar gyfer:

[W20/29HE: Ymgynghoriad ar lesiant ac iechyd mewn AU: cyllid 2020/21](#)

Defnyddiwyd yr un dull, gan ddefnyddio data myfyrwyr 2018/19, i ddyrannu £2.71M ar gyfer

[W20/35HE: Llesiant ac iechyd: cyllid cynlluniau cyflawni llesiant ac iechyd 2020/21](#)

Defnyddiwyd yr un dull, gan ddefnyddio data myfyrwyr 2019/20, i ddyrannu £2M ar gyfer

[W21/22HE: Llesiant ac iechyd: cyllid strategaethau llesiant ac iechyd 2021/22](#)